# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

# Rhowch eich barn ar y Cynllun

Rydym wrthi'n ymgynghori am y **Cynllun Adnau**, sydd yn dweud faint o gartrefi newydd sydd eu hangen yn ardal y Cynllun a faint o dir cyflogaeth sydd angen ei gadw hyd at 2026. Darllenwch fwy am y Cynllun yn y daflen yma a chael gwybod am sut i roi eich barn.

Bwriad y daflen yma yw rhoi braslun cyffredinol i chi o gynnwys y Cynllun, ac esbonio proses yr ymgynghoriad cyhoeddus arno a sut y gallwch roi sylwadau. **Fodd bynnag, os bydd arnoch eisiau cyflwyno sylwadau, bydd rhaid i chi eu cysylltu â'r ddogfen lawn.**

Dyma drosolwg o strwythur y Cynllun Adnau:


| | |
|---|---|
| **1. CRYNODEB GWEITHREDOL** | **1 - 9** |
| **2. CYFLWYNIAD** | **10 - 18** |
| **3. CYD-DESTUN POLISI (CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL)** | **19 - 31** |
| **4. PROFFIL GOFODOL A PHRIF FATERION** | **32 - 38** |
| **5. GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL** | **39 - 45** |
| **6. Y STRATEGAETH** | **46 - 57** |
| **7. RHEOLI TWF A DATBLYGU** | |
| Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog | **58 - 71** |
| Byw'n Gynaliadwy | **72 - 88** |
| Economi ac Adfywio | **89 - 121** |
| Cyflenwad ac Ansawdd Tai | **122 - 164** |
| Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig | **165 - 197** |
| **8. MONITRO A GWEITHREDU** | **198 - 214** |


## Beth ydi Cynllun Adnau?

Dyma'r enw ar y ddogfen sy'n mynd i reoli datblygiad yn Ynys Môn ac yn ardal cynllunio Gwynedd hyd at 2026. Os bydd rhywun yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar ôl i'r Cynllun yma gael ei fabwysiadu, hon fydd y brif ddogfen a gaiff ei hystyried. Mae'r map yn dangos ardal y Cynllun.

Mae'r ddogfen mewn dau ran:

1. **Datganiad Ysgrifenedig** sy'n dweud faint o ddatblygu a fydd yn digwydd, ac yn lle, mewn gwahanol ganolfannau a phentrefi yn ogystal â nodi polisïau a fydd yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio;

2. **Mapiau Cynigion a Mapiau Mewnosodiad** sy'n dangos tir ar gyfer datblygu (ee tai, cyflogaeth), a **Mapiau Cyfyngiadau** a fydd yn dangos llefydd sydd angen eu gwarchod neu eu rheoli (e.e. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardal Tirwedd Arbennig). Mae'r Mapiau mewn dwy gyfrol, - un i Wynedd ac un i Ynys Môn

Er mwyn i Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn fod yn siŵr bod y Cynllun Adnau yn 'gadarn' mae'n rhaid iddynt ofyn am farn trigolion lleol, rhanddeiliaid allweddol a phobl eraill. Mae'r Cynghorau angen gwybod a ydi'r strategaeth a'r polisïau maent wedi eu drafftio yn y Cynllun Adnau yn addas i gwrdd ag anghenion yr ardal ac a ydi'r dystiolaeth sydd y tu ôl iddynt yn gywir.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Beth yw 'cadarn'?

Mae'r term 'cadarn' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio Cynllun sydd 'yn dangos doethineb' ac y gellir 'ymddiried ynddo' ar sail tystiolaeth perthnasol. Defnyddir 10 prawf cadernid i asesu'r Cynllun. Bydd y Cynllun yn cael ei archwilio gan Arolygydd anibynnol a gwaith yr Arolygydd fydd penderfynu os yw'r Cynllun yn 'gadarn'.

## Beth sydd wedi digwydd yn barod?


1. gofyn am farn trigolion lleol, rhanddeiliaid allweddol a phobl eraill am y materion sydd angen sylw, ac opsiynau twf tai a dosbarthiad: Tachwedd 2011 - Ionawr 2012;

2. gofyn am farn trigolion lleol, rhanddeiliaid allweddol a phobl eraill am yr Hoff Strategaeth: Mai – Mehefin 2013;

3. trafod datblygiad y Cynllun Adnau gyda rhanddeiliaid amrywiol: Gorffennaf 2013 – Rhagfyr 2014.

## Faint o gartrefi sy'n cael eu hargymell yn ardal y Cynllun?






7,184 o gartrefi newydd (+ 10% lwfans llithriad)

## Pam fod angen cartrefi newydd yn ardal y Cynllun rhwng 2011 a 2026?


Mae'r ddau Gyngor wedi gwneud asesiad o'r gofynion tebygol am gartrefi newydd rhwng 2011 a 2026. Mae'r asesiad yma'n cynnwys edrych ar dueddiadau newid mewn poblogaeth ac aelwydydd, twf economaidd a ragwelir, galw am dai fforddiadwy, patrwm adeiladu'r gorffennol, cyflwr yr economi lleol ar hyn o bryd ac effaith hynny ar y farchnad tai, effeithiau posibl ar y cymunedau, economi a'r amgylchedd.

## Beth ydi lwfans llithriad?

Ffigwr (718) sy'n cael ei ychwanegu i'r ffigwr sylfaenol o gartrefi (7,184) i ganiatáu elfen o ddewis wrth gefn e.e. rhag ofn i nifer llai o unedau nag a ragwelwyd gael eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd, neu oedi wrth ddatblygu safleoedd penodol, neu lai o ddefnydd o adeiladau presennol o fewn cyfnod y Cynllun.

## Lle bydd y cartrefi newydd yn cael eu darparu yn ardal y Cynllun?







Mae'r tabl ar ddiwedd y daflen yn dangos beth all hyn olygu fesul Canolfan, Pentref a Chlwstwr.

## Faint o dir cyflogaeth?






800 ha yn ardal y Cynllun

+ Safle ger Gaerwen, Ynys Môn a ffefrir ar gyfer datblygu Parc Gwyddoniaeth

## Pam fod angen cymaint o dir cyflogaeth?

Mae'r Cynghorau yn gwarchod tir ac eiddo ar safleoedd busnes a diwydiannol presennol ac yn dynodi rhai newydd er mwyn cwrdd â'r galw am gyflogaeth a ragwelir a fydd yn hyrwyddo'r twf economaidd trawsffurfiol yn ardal y Cynllun yn ystod 2011 - 2026.

## Pam fod angen safleoedd wrth gefn?

Mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth yn awgrymu y gellir bod angen mwy o dir yn Ynys Môn na'r hyn sy'n cael ei warchod neu adnabod o'r newydd, er mwyn cynnal Prosiect Wylfa Newydd.

## Polisïau Strategol a Manwl

Mae yna 19 o Bolisïau Strategol a 77 o Bolisïau Manwl yn y Cynllun Adnau sy'n rhoi'r fframwaith ar gyfer ymdrin â datblygu yn y dyfodol yn ardal y Cynllun. Maent yn ymdrin â gwahanol fathau o ddatblygiadau gan gynnwys tai, gwaith, twristiaeth, amgylchedd lleol, cyfleusterau, cludiant ac isadeiledd. Dyma rai o'r negeseuon y polisiau yma:

**Mathau amrywiol o gartrefi newydd:**



- tai fforddiadwy amrywiol;
- tai marchnad lleol;
- tai marchnad agored;
- llety pwrpasol i'r henoed;
- llety pwrpasol i'r henoed sydd angen gofal;
- tai o faint amrywiol;
- llety pwrpasol ac amgen i weithwyr adeiladu Wylfa Newydd, gan hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer defnydd amgen pan ddaw'r defnydd gwreiddiol i ben.



- gwarchod lleiniau presennol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.;
- bydd angen o leiaf 21 o leiniau parhaol ychwanegol yn ardal y Cynllun;
- bydd angen cyfres o safleoedd bychan i aros dros nos yn ardal y Cynllun.



- rheoli newid defnydd ar dir cyflogaeth rhag eu colli i ddefnydd amhriodol;
- annog eiddo busnes/ diwydiannol newydd neu estyniadau i eiddo busnes/ diwydiannol presennol yn yr ardaloedd gwledig;
- cynnal a chryfhau colegau a'r Brifysgol.



- annog atyniadau newydd o safon uchel i ymwelwyr;
- rheoli'r cyflenwad a'r math o lety newydd i ymwelwyr a'i leoliad;
- annog ymweliadau trwy gydol y flwyddyn.



- gwarchod, cynnal a gwella amgylchedd naturiol a hanesyddol;
- gwarchod hynodrwydd a hunaniaeth yr amgylchedd adeiledig;
- annog effeithlonrwydd ynni trwy adeiladu'n well ac annog cynlluniau ynni adnewyddol priodol
- rheoli risg llifogydd.



- gwarchod cymeriad cymunedau Cymraeg;
- gwarchod cyfleusterau cymunedol;
- sicrhau bod isadeiledd addas, e.e. ysgolion, gofal iechyd, ffyrdd, gwaith trin dŵr budr, yn ei le cyn datblygu neu bod y datblygwr yn cyfrannu at welliannau angenrheidiol.

Mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio hefyd at bolisiau cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth perthnasol am faterion fel adeiladu ty newydd yng nghefn gwlad, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, mastiau telathrebu (nid yw'r rhestr yn un cynhwysfawr).

## Yr ymgynghoriad cyhoeddus

### Pryd gellir gwneud sylwadau?

Bydd y cyfnod ymgynghori am 6 wythnos, rhwng **dydd Llun, 16/2/15 a dydd Mawrth 31/3/15**. Bydd rhaid i bob sylw gael ei gwblhau a chyrraedd dim hwyrach na **5pm** ar ddiwrnod olaf yr ymgynghoriad.

Y cam pwysig hwn yw'r cyfle olaf i chi wneud sylwadau ar y Cynllun i gyd.

### Sut i gael y ffurflen sylwadau swyddogol

Gallwch gael copi o'r ffurflen swyddogol oddi ar y wefan; yn swyddfeydd y ddau Gyngor; yn swyddfeydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ym Mangor; Siopau Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau, neu Bwllheli; swyddfeydd Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni; neu yn y llyfrgelloedd cyhoeddus yn Ynys Môn a Gwynedd. Gallwch ffonio'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 01286 685003 neu 01766 771000 hefyd i ofyn am gopi o'r ffurflen.

## Sut mae gwneud sylwadau?

Y ffordd orau o wneud sylwadau yn ddiogel yw trwy'r porth gwneud sylwadau yn:

www.gwynedd.gov.uk/cdll
www.ynysmon.gov.uk/cdll

Yr unig ffordd arall o wneud sylwadau yw trwy ddefnyddio'r ffurflen sylwadau swyddogol.

**Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen sylwadau ar wahân ar gyfer pob sylw sydd gennych.**

## Os nad ydych yn defnyddio'r porth cynllunio, i le y dylid gyrru'r ffurflen sylwadau?

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor,
Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd. LL57 1DT

✉ polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

## Lle gellir gweld y Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiedig?

Gallwch weld y Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiedig ar wefan y ddau Gyngor yn:

www.gwynedd.gov.uk/cdll
www.ynysmon.gov.uk/cdll

neu yn swyddfeydd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Ffordd Gwynedd, Bangor; Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau, neu Bwllheli; swyddfeydd Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni; neu yn y llyfrgelloedd cyhoeddus yn Ynys Môn a Gwynedd.

## Unrhyw gwestiynau?

Cysylltwch â'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

✉ polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

☎ 01766 771000 a gofyn am yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd neu 01286 685003

**Diwrnodau agored** - bydd cyfle i unrhyw un fynychu'r rhain i ofyn cwestiynau i swyddogion yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. Bydd mwy o wybodaeth am y digwyddiadau yma ar wefannau'r ddau Gyngor.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus yma?

**Cynllun Adnau**
**(Chwefror /Mawrth 2015)**

Bydd yr ymgynghori cyhoeddus am y Cynllun Adnau'n digwydd rhwng **16 Chwefror a 5yh 31 Mawrth 2015**. Bydd sylwadau'n cael eu rhoi gyda'i gilydd mewn cofrestr. Bydd adroddiad am yr ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Cynllunio ac yn cael ei roi mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, swyddfeydd y Cynghorau ac ar wefan y Cynghorau cyn diwedd 2015.

**Cofrestr Safleoedd Amgen**
**(Disgwylir Mehefin/ Gorffennaf 2015)**

Cyhoeddir cofrestr o safleoedd y mae unigolion a chyrff yn ystyried y dylid eu dynodi yn y Cynllun; eu dileu o'r Cynllun neu eu haddasu mewn rhyw fodd. Bydd y Cynghorau'n ymgynghori am y safleoedd amgen yma am 6 wythnos mor fuan a phosib ar ol y cyfnod ymgynghori am y Cynllun Adnau.

**Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru**
**(Disgwylir Rhagfyr 2015)**

Wedyn fe fydd y Cynghorau'n gyrru'r Cynllun Adnau, y sylwadau a dderbyniwyd, crynodeb o'r ymateb iddynt, yn ogystal â dogfennau eraill, i Lywodraeth Cymru. Bydd Arolygydd annibynnol yn cael ei benodi wedyn i gynnal Archwiliad Cyhoeddus.

**Archwiliad Cyhoeddus**
**(Disgwylir Ebrill 2016)**

Bydd yr Arolygydd yn edrych ar y Cynllun, y dystiolaeth y tu ôl iddo a'r sylwadau a dderbyniwyd amdano. Bydd yr Archwiliad Cyhoeddus yn rhoi cyfle i'r Cyngor, unigolion a mudiadau sydd wedi rhoi sylwadau i mewn yn ystod y cyfnodau ymgynghori cyhoeddus yn 2015 i egluro'u safbwynt i'r Arolygydd.

Ar ôl yr Archwiliad bydd yr Arolygydd yn rhoi adroddiad i'r Cynghorau a fydd yn cynnwys barn yr Arolygydd am y Cynllun. Efallai y bydd yn argymell bod newidiadau'n cael eu gwneud i wella'r Cynllun. Mae barn yr Arolygydd yn derfynnol.

**Mabwysiadu**
**(Disgwylir Rhagfyr 2016)**

Bydd rhaid i'r Cynghorau benderfynu os byddant am fabwysiadu'r Cynllun yn unol ag argymhellion yr Arolygydd.

Dyma dabl sy'n rhoi'r ffigwr tai dangosol ar gyfer pob Canolfan neu Bentref yn ardal **Awdurdod Cynllunio Gwynedd** sy'n cael eu hadnabod yn y Cynllun:

| **Anheddle** | **Lefel Twf Dangosol** | **Unedau wedi ei cwblhau (2011-14)** | **Banc Tir Presennol[1]** | **Nifer ychwanegol dangosol sydd ei angen[2]** |
|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 13 | 4 | 2 | 7 |
| Abererch | 9 | 1 | 0 | 8 |
| Abermaw | 91 | 17 | 47 | 27 |
| Abersoch | 67 | 2 | 32 | 33 |
| Bangor | 969 | 97 | 474 | 398 |
| Bethel | 40 | 0 | 4 | 36 |
| Bethesda | 99 | 17 | 28 | 54 |
| Blaenau Ffestiniog | 298 | 7 | 10 | 281 |
| Bontnewydd | 40 | 1 | 29 | 10 |
| Borth y Gest | 10 | 0 | 1 | 9 |
| Botwnnog | 40 | 1 | 5 | 34 |
| Brynrefail | 7 | 5 | 0 | 2 |
| Caeathro | 7 | 0 | 0 | 7 |
| Caernarfon | 415 | 31 | 162 | 222 |
| Carmel | 12 | 0 | 0 | 12 |
| Clynnog Fawr | 10 | 1 | 1 | 8 |
| Corris | 14 | 0 | 0 | 14 |
| Criccieth | 144 | 6 | 56 | 82 |
| Cwm y Glo | 13 | 0 | 15 | 0 |
| Chwilog | 40 | 1 | 1 | 38 |
| Deiniolen | 40 | 13 | 7 | 27 |
| Dinas (Llanwnda) | 8 | 0 | 26 | 0 |
| Dinas Dinlle | 5 | 1 | 2 | 2 |
| Dolydd a Maen Coch | 4 | 0 | 1 | 3 |
| Edern | 12 | 0 | 11 | 1 |
| Efailnewydd | 8 | 1 | 1 | 6 |
| Fairbourne | 7 | 2 | 7 | 0 |
| Garndolbenmaen | 12 | 0 | 0 | 12 |
| Garreg - Llanfrothen | 10 | 2 | 0 | 8 |
| Groeslon | 13 | 2 | 0 | 11 |
| Llangian | 4 | 0 | 0 | 4 |
| Llangybi | 4 | 0 | 0 | 4 |
| Llanaelhaearn | 15 | 2 | 0 | 13 |
| Llanbedrog | 16 | 15 | 3 | 0 |

| Anheddle | Lefel Twf Dangosol | Unedau wedi ei cwblhau (2011-14) | Banc Tir Presennol[1] | Nifer ychwanegol dangosol sydd ei angen[2] |
|---|---|---|---|---|
| Llanberis | 70 | 1 | 16 | 53 |
| Llandwrog | 7 | 1 | 0 | 6 |
| Llandygai | 8 | 1 | 15 | 0 |
| Llanllyfni | 9 | 0 | 2 | 7 |
| Llanrug | 61 | 14 | 33 | 14 |
| Llanystumdwy | 10 | 0 | 1 | 9 |
| Llithfaen | 9 | 2 | 3 | 4 |
| Morfa Bychan | 10 | 3 | 10 | 0 |
| Morfa Nefyn | 15 | 26 | 16 | 0 |
| Mynytho | 13 | 4 | 4 | 5 |
| Nantlle | 6 | 0 | 0 | 6 |
| Nefyn | 73 | 7 | 31 | 35 |
| Penisarwaun | 8 | 2 | 2 | 4 |
| Penrhyndeudraeth | 191 | 2 | 22 | 167 |
| Pentref Uchaf | 4 | 0 | 1 | 3 |
| Penygroes | 89 | 10 | 15 | 64 |
| Porthmadog | 128 | 5 | 56 | 67 |
| Pwllheli | 323 | 32 | 40 | 251 |
| Rachub | 40 | 3 | 7 | 30 |
| Rhiwlas | 9 | 1 | 1 | 7 |
| Rhosgadfan | 9 | 0 | 2 | 7 |
| Rhoshirwaun | 6 | 2 | 2 | 2 |
| Rhostryfan | 10 | 2 | 17 | 0 |
| Sarn Bach | 4 | 0 | 0 | 4 |
| Sarn Mellteyrn | 11 | 0 | 3 | 8 |
| Talysarn | 13 | 2 | 2 | 9 |
| Tregarth | 13 | 1 | 1 | 11 |
| Trefor | 13 | 4 | 4 | 5 |
| Tremadog | 12 | 2 | 10 | 0 |
| Tudweiliog | 12 | 1 | 3 | 8 |
| Tywyn | 103 | 13 | 88 | 2 |
| Waunfawr | 13 | 5 | 10 | 0 |
| Y Felinheli | 19 | 51 | 69 | 0 |
| Y Fron | 6 | 0 | 2 | 4 |
| Y Ffôr | 40 | 0 | 9 | 31 |

[1] Y ffigwr yma wedi asesu'r holl unedau efo caniatâd cynllunio a thynnu allan rhai sydd yn annhebygol o gael ei adeiladu.

[2] Bydd hyn yn cael ei gyfarch trwy ddynodiadau newydd a chyfleoedd ar hap sydd wedi ei adnabod trwy'r capasiti trefol.

Dyma restr o'r Clystyrau yn ardal **Awdurdod Cynllunio Gwynedd**, lle mae polisi'n hyrwyddo 2 dy fforddiadwy angen lleol yn ystod oes y Cynllun:

Aberdesach, Aberllefenni, Aberpwll, Bethesda Bach, Bryncir, Bryncroes, Bryn Eglwys, Bwlchtocyn, Penrhos (Caeathro), Caerhun/Waen Wen, Capel Uchaf, Capel y Graig, Ceidio, Corris Uchaf, Crawia, Dinas (Llyn), Dinorwig, Friog, Gallt y Foel, Glasinfryn, Groeslon Waunfawr, Llanaber, Llandderfel, Llanengan, Llanfor, Llangwnadl, Llaniestyn, Llanllechid, Llannor, Llanwnda, Llwyn Hudol, Machroes, Maes Tryfan, Minffordd, Minffordd (Bangor), Mynydd Llandygai, Nebo, Pantglas, Pencaenewydd, Penmorfa, Penrhos, Pentir, Pentrefelin, Pistyll, Pontllyfni, Rhiw, Rhos Isaf, Rhoslan, Rhydyclafdy, Saron (Llanwnda), Sling, Swan, Tai'n Lon, Talwaenydd, Talybont, Tan y Coed, Treborth, Ty'n-lon, Ty'n y Lon, Waun (Penisarwaun).

•••••••••

Dyma dabl sy'n rhoi'r ffigwr tai dangosol ar gyfer pob Canolfan neu Bentref yn **Ynys Môn** sy'n cael eu hadnabod yn y Cynllun:

| Anheddle | Lefel Twf Dangosol | Unedau wedi ei cwblhau (2011-14) | Banc Tir Presennol[1] | Nifer ychwanegol dangosol sydd ei angen[2] |
|---|---|---|---|---|
| Caergybi | 833 | 71 | 396 | 366 |
| Llangefni | 673 | 52 | 53 | 568 |
| Amlwch | 533 | 18 | 31 | 484 |
| Porthaethwy | 115 | 21 | 69 | 25 |
| Biwmares | 96 | 6 | 38 | 52 |
| Benllech | 90 | 40 | 13 | 37 |
| Y Fali | 84 | 13 | 32 | 39 |
| Llanfairpwll | 82 | 7 | 40 | 35 |
| Cemaes | 81 | 3 | 7 | 71 |
| Rhosneigr | 70 | 16 | 17 | 37 |
| Gaerwen | 58 | 18 | 4 | 36 |
| Bodedern | 57 | 0 | 1 | 56 |
| Pentraeth | 57 | 22 | 13 | 22 |
| Llannerch-y-medd | 40 | 1 | 17 | 22 |
| Gwalchmai | 40 | 1 | 11 | 28 |
| Niwbwrch | 40 | 0 | 26 | 14 |
| Bethel | 12 | 2 | 0 | 10 |
| Bodffordd | 16 | 2 | 0 | 14 |
| Bryngwran | 19 | 3 | 22 | 0 |
| Brynsiencyn | 22 | 1 | 9 | 12 |
| Caergeiliog | 16 | 0 | 2 | 14 |
| Dwyran | 20 | 6 | 28 | 0 |
| Llandegfan | 22 | 0 | 11 | 11 |


| Anheddle | Lefel Twf Dangosol | Unedau wedi ei cwblhau (2011-14) | Banc Tir Presennol[1] | Nifer ychwanegol dangosol sydd ei angen[2] |
|---|---|---|---|---|
| Llanddaniel Fab | 17 | 12 | 5 | 0 |
| Llanfachraeth | 21 | 2 | 6 | 13 |
| Llanfaethlu | 9 | 2 | 7 | 0 |
| Llanfechell | 18 | 1 | 21 | 0 |
| Llanfihangel yn Nhowyn | 16 | 0 | 1 | 15 |
| Llangaffo | 15 | 0 | 0 | 15 |
| Llangristiolus | 11 | 13 | 6 | 0 |
| Llanrhyddlad | 5 | 0 | 5 | 0 |
| Pencarnisiog | 9 | 0 | 2 | 7 |
| Penysarn | 22 | 0 | 6 | 16 |
| Rhosybol | 18 | 3 | 15 | 0 |
| Talwrn | 16 | 6 | 3 | 7 |
| Tregele | 8 | 1 | 2 | 5 |
| Aberffraw | 16 | 0 | 11 | 5 |
| Carreglefn | 9 | 1 | 3 | 5 |
| Pont Rhyd y Bont | 13 | 1 | 13 | 0 |
| Llanbedrgoch | 9 | 2 | 5 | 2 |
| Llanddona | 16 | 0 | 5 | 11 |
| Llanfaelog | 16 | 0 | 11 | 5 |
| Llangoed | 21 | 4 | 14 | 3 |
| Malltraeth | 12 | 0 | 3 | 9 |
| Moelfre | 24 | 12 | 2 | 10 |
| Trearddur | 24 | 15 | 72 | 0 |


[1] Y ffigwr yma wedi asesu'r holl unedau efo caniatâd cynllunio a thynnu allan rhai sydd yn annhebygol o gael ei adeiladu.

[2] Bydd hyn yn cael ei gyfarch trwy ddynodiadau newydd a chyfleoedd ar hap sydd wedi ei adnabod trwy'r capasiti trefol.

Dyma restr o'r Clystyrau yn **Ynys Môn**, lle mae polisi'n hyrwyddo 2 dy fforddiadwy angen lleol yn ystod oes y Cynllun:

Bodorgan, Bro Iarddur (Trearddur), Bryn Du, Brynminceg (Old Llandegfan), Brynrefail, Brynteg, Bwlch Gwyn, Capel Coch, Capel Mawr, Capel Parc, Carmel, Cerrigman, Cichle, Haulfre (Llangoed), Elim, Glanyrafon, Glyn Garth, Gorsaf Gaerwen, Hebron, Hendre Hywel (Pentraeth), Hermon, Llanddeusant, Llaneilian, Llanfaes, Llanfairynghornwy, Llangadwaladr, Llansadwrn, Llanynghenedl, Llynfaes, Marianglas, Mynydd Mechell, Nebo, Penygroes, Pen y Marian, Pengorffwysfa, Penlon, Penmon, Pentre Berw, Pentre Canol (Holyhead), Penygraigwen, Porth Llechhog (Bull Bay), Rhoscefnhir, Rhosmeirch, Rhostrehwfa, Bryn y Mor (Valley), Rhydwyn, Star, Traeth Coch (Red Wharf Bay), Trefor, Tyn Lon (Glan yr Afon), Tynygongl.


Amlwch
I / O Iwerddon
To / From Ireland
Caergybi
Holyhead
I / O Gogledd Dwyrain Cymru
To / From North East Wales
Llangefni
Bangor
Caernarfon
I / O Gogledd Dwyrain Cymru
To / From North East Wales
I / O Gogledd Dwyrain Cymru
To / From North East Wales
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog


Pwllheli
Abermaw
Tywyn
I / O Canolbarth Cymru
To / From Mid Wales
Nodiant / Notation
Canolfan Is Ranbarthol / Sub-regional Centre
Canolfannau Gwasanaethol Trefol / Urban Service Centres
Canolfannau Gwasanaethol Lleol / Local Services Centres
Pentrefi Gwasanaethol / Service Villages
Pentrefi Eraill / Other Villages
Prif Ganolfannau Manwerthu / Main Shopping Centres
Ganolfannau Gwaith / Employment Centres
Safleoedd Parthau Menter / Enterprise Zone Sites
Prif Ffyrdd / Main Roads
Prif Reilffyrdd / Main Railway Lines
Maes Awyr / Airport
Porthladd / Port
Adeiladu Niwclear Newydd Wylfa Nuclear New Build
Ardaloedd Gwarchod y Tirlun Newydd Arfaethedig
Proposed New Landscape Conservation Areas
Ardal o Harddwch Naturiol Eithradol (AHNE)
Area of Outstanding Naural Beauty (AONB)
Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park
Cysylltiadau / Links